Polisi Absenoldeb Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant

Tabl Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Absenoldeb Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Manon Ceridwen James, Deon Hyfforddiant Cychwynnol i'r Weinidogaeth Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Rhif y Fersiwn:	1
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	17 Ionawr 2022
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad gweithredu:	Ar unwaith
Dyddiad adolygu:	Ionawr 2025
Fersiwn a ddisodlwyd:	
Dogfennau Cysylltiedig:	Polisi Absenoldeb Rhiant Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant Polisi Gallu i Astudio Athrofa Padarn Sant

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar y diwygiadau

Polisi Absenoldeb Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Absenoldeb oherwydd salwch
   3.1 Absenoldeb tymor byr oherwydd salwch
   3.2 Absenoldeb hirdymor oherwydd salwch
4. Cymorth pellach i ymgeiswyr sy'n dioddef o salwch
5. Absenoldeb tosturiol
   5.1 Absenoldeb tosturiol tymor byr
   5.2 Absenoldeb tosturiol hirdymor
6. Absenoldeb o Gyrsiau Preswyl
7. Absenoldeb a Grantiau
8. Absenoldeb ac astudiaethau academaidd
9. Polisïau eraill

2. Cyflwyniad

Dyluniwyd y Rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig fel profiad dysgu integredig gyda phob cydran yn ffurfio rhan hanfodol o'r hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth. Gallai methu unrhyw gydran, p'un a yw'n sesiwn academaidd, yn gwrs preswyl Diwinyddiaeth ac Ymarfer y Weinidogaeth, neu'n brofiad ar leoliad, arwain o bosibl at fylchau sylweddol, a fydd yn anodd mynd i'r afael â nhw yn ddiweddarach mewn sawl achos. Rydym yn disgwyl i bob ymgeisydd roi blaenoriaeth i bob agwedd ar y ffurfiant ar gyfer cyfnod eu hyfforddiant, ystyried yn ofalus eu gallu i wneud yr ymrwymiad amser hwn, ac i sicrhau nad yw ymrwymiadau eraill yn amharu ar y cyfle pwysig hwn i drochi mewn ffurfiant diwinyddol, ymarferol ac ysbrydol.

Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd sefyllfaoedd yn codi o bryd i'w gilydd sy'n golygu na ellir osgoi absenoldeb. Mae'r polisi hwn yn amlinellu cyfrifoldebau'r ymgeisydd ac Athrofa Padarn Sant os oes yn rhaid i ymgeisydd fod yn absennol o unrhyw agwedd ar eu hyfforddiant, gan gynnwys eu lleoliad a'u cyrsiau preswyl. Mae gan Athrofa Padarn Sant ddiddordeb mawr mewn llesiant emosiynol, meddyliol ac ysbrydol ymgeiswyr. Mae'r mesurau a amlinellir yn y polisi hwn yn bodoli i gefnogi gofal Athrofa Padarn Sant o'i hymgeiswyr.

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd angen i ymgeisydd fod yn absennol am resymau ar wahân i salwch. Mae'r polisi hwn yn amlinellu beth allai'r rhesymau hynny fod, a'r mesurau sydd ar waith i gefnogi ymgeiswyr y mae angen iddynt fod yn absennol am resymau o'r fath. Mae absenoldeb oherwydd mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a defnyddio mam fenthyg neu fod yn fam fenthyg wedi'i gwmpasu ym Mholisi Absenoldeb Rhiant Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant yma

Mae'r polisi hwn yn tynnu ar yr egwyddorion a nodir yn llawlyfr y glerigiaeth[1], fodd bynnag mae'r ddarpariaeth gyllidol yn amrywio gan fod ymgeiswyr yn derbyn grant yn hytrach na chyflog.

3. Absenoldeb oherwydd salwch

3.1 Absenoldeb tymor byr oherwydd salwch

Os oes angen i ymgeisydd fod yn absennol o'r hyfforddiant oherwydd salwch am gyfnod o 1-7 niwrnod, yna mae angen iddynt hysbysu eu tiwtor personol cyn gynted â phosibl a darparu'r wybodaeth a ganlyn:

1. Y rheswm dros yr absenoldeb.
2. Y dyddiad tebygol ar gyfer ailddechrau'r hyfforddiant.
3. A ellir priodoli'r absenoldeb i anaf a gafwyd yn ystod gweithgaredd hyfforddi, neu amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u hyfforddiant.
4. A ydynt wedi ceisio cyngor meddygol.

Os yw'r cyfnod o absenoldeb yn cynnwys amser a dreulir fel arfer mewn lleoliad, yna dylent hefyd hysbysu goruchwyliwr eu lleoliad cyn gynted â phosibl. Bydd y tiwtor personol yn hysbysu Cydlynydd y Rhaglen ynghylch yr absenoldeb, a fydd yn cadw

[1] https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/clergy-handbook/clergy-sickness-ill-health-and-incapacity/

cofnod o'r absenoldeb ac yn hysbysu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yr ymgeisydd (e.e. Arweinwyr Celloedd Ffurfiannol).

Pan fyddant yn ailddechrau'r hyfforddiant, dylai'r ymgeisydd gysylltu â'u tiwtor personol, ac anfon y ffurflen hunan-dystio wedi'i llenwi atynt. Mae'n bosibl y bydd y tiwtor personol yn cynnal cyfweliad dychwelyd i hyfforddiant.

3.2 Absenoldeb hirdymor oherwydd salwch

Os oes angen i ymgeisydd fod yn absennol o'r hyfforddiant am fwy na 7 niwrnod oherwydd salwch, dylent gael **Nodyn Ffitrwydd** gan eu meddyg. Bydd hyn yn nodi'r dyddiad y mae'r meddyg wedi'i ddatgan y bydd yr ymgeisydd yn iach i weithio. Os na roddir dyddiad, rhaid i'r ymgeisydd ddychwelyd at y meddyg a chael nodyn newydd sy'n nodi'r dyddiad pryd y dylent fod yn iach cyn y gallant ailddechrau'r hyfforddiant. Yn yr un modd â chyda chyfnodau byrrach o salwch, dylai'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol cyn gynted â phosibl a darparu'r wybodaeth a ganlyn:

1. Y rheswm dros yr absenoldeb.
2. Y dyddiad tebygol ar gyfer ailddechrau'r hyfforddiant.
3. A ellir priodoli'r absenoldeb i anaf a gafwyd yn ystod gweithgaredd hyfforddi, neu amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u hyfforddiant.

Dylai'r ymgeisydd hysbysu goruchwyliwr eu lleoliad am eu habsenoldeb hefyd, a'i hyd tebygol. Bydd y tiwtor personol yn hysbysu Cydlynydd y Rhaglen ynghylch yr absenoldeb, a fydd yn cadw cofnod o'r absenoldeb ac yn hysbysu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yr ymgeisydd (e.e. Arweinwyr Celloedd Ffurfiannol).

Pan fydd yr ymgeisydd yn ailddechrau'r hyfforddiant, bydd y tiwtor personol yn cynnal cyfweliad dychwelyd i hyfforddiant er mwyn gweld a oes angen rhoi mesurau ar waith i helpu i sicrhau na fydd y broblem iechyd yn codi eto ac i asesu a oes angen unrhyw gefnogaeth i gynorthwyo dychweliad yr ymgeisydd, er enghraifft, dychwelyd yn raddol i'r hyfforddiant.

Bydd Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu os bydd yr absenoldeb yn hwy nag wythnos fel y gallant roi'r cymorth priodol.

Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ni fydd grantiau bellach yn daladwy ar ôl blwyddyn a thybir bod yr hyfforddiant wedi dod i ben. Os oes amgylchiadau eithriadol, byddai ymgynghori'n digwydd gydag Esgob yr ymgeisydd, y Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol a Phrif Swyddog Gweithredol Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ac mae'n bosibl y bydd y cyfnod hwn yn cael ei estyn.

4. Cymorth pellach i ymgeiswyr sy'n dioddef o salwch

Mae'r rhesymau dros absenoldeb yn sgil salwch weithiau'n syml ac weithiau'n fwy cymhleth. Os yw ymgeisydd yn absennol am gyfnodau byr yn aml oherwydd salwch neu os oes un neu fwy o gyfnodau hirdymor o absenoldeb, mae'n bosibl bod problemau sylfaenol sy'n peri'r salwch y mae angen cymorth pellach ar eu cyfer. Mae'n bosibl y bydd y Deon Hyfforddiant Gweinidogion yn gofyn i'r ymgeisydd geisio cyngor meddygol ychwanegol neu gymryd rhan mewn asesiad iechyd galwedigaethol i ganfod unrhyw achosion sylfaenol. Os oes achosion sylfaenol, yna bydd Athrofa Padarn Sant yn dymuno gweithio gyda'r ymgeisydd i roi cynllun ar waith, lle bynnag y bo'n bosibl, i helpu i fynd i'r afael â'r problemau neu i gefnogi'r ymgeisydd drwyddynt. Gallai hyn gynnwys mesurau fel trefnu sesiynau cwnsela os yw'r materion iechyd yn ymwneud ag iechyd meddwl neu edrych ar addasiadau rhesymol os yw'r cyflwr yn barhaus. Anogir yr ymgeiswyr i siarad â'u tiwtor personol os oes unrhyw beth sy'n peri pryder iddynt allai fod yn effeithio ar eu hiechyd.

5. Absenoldeb tosturiol

Lle bynnag y bo'n bosibl, anogir yr ymgeiswyr i drefnu materion fel apwyntiadau meddygol rheolaidd y tu allan i'w hamser hyfforddi. Fodd bynnag, bydd adegau lle y mae materion ar wahân i salwch yn codi sy'n golygu bod angen i ymgeiswyr fod yn absennol o'r hyfforddiant.

5.1 Absenoldeb tosturiol tymor byr

Gallai hyn gynnwys materion fel apwyntiadau meddygol nad ydynt yn rhai rheolaidd, angladd, symud tŷ, mynd ag unigolyn dibynnol i apwyntiad meddygol, argyfyngau.

Ar gyfer absenoldebau am 1 – 7 niwrnod, bydd angen i'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol cyn gynted â phosibl a darparu'r wybodaeth a ganlyn:

1. Y rheswm dros yr absenoldeb.
2. Y dyddiad tebygol ar gyfer ailddechrau'r hyfforddiant.

Os yw'r cyfnod o absenoldeb yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio fel arfer mewn lleoliad, dylent hefyd hysbysu goruchwyliwr eu lleoliad cyn gynted â phosibl. Bydd y tiwtor personol yn hysbysu Cydlynydd y Rhaglen ynghylch yr absenoldeb, a fydd yn cadw cofnod o'r absenoldeb ac yn hysbysu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yr ymgeisydd (e.e. Arweinwyr Celloedd Ffurfiannol).

Dylai'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol a goruchwyliwr eu lleoliad pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith. Os bydd ymgeisydd yn absennol am gyfnodau byr yn aml, mae'n bosibl y bydd y tiwtor personol yn dechrau sgwrs fugeiliol i weld a oes unrhyw broblemau sylfaenol.

5.2 Absenoldeb tosturiol hirdymor

Y rheswm mwyaf tebygol dros y math hwn o absenoldeb yw digwyddiadau bywyd difrifol fel profedigaeth, neu'r angen i roi gofal am gyfnod i briod neu berthynas sy'n sâl. Mae'n debygol y bydd digwyddiad o'r fath yn cael effaith ar lesiant yr ymgeisydd. Bydd Athrofa Padarn Sant yn dymuno cefnogi'r ymgeisydd, yn ogystal â thrafod goblygiadau'r absenoldeb o ran yr hyfforddiant. Dylai ymgeisydd mewn sefyllfa o'r fath siarad â'u tiwtor personol cyn gynted â phosibl fel y gellir rhoi cymorth. Bydd y tiwtor personol yn trafod gyda'r ymgeisydd hyd yr amser y mae'n bosibl y bydd angen iddynt fod yn absennol. Gellir cytuno ar gyfnod o hyd at bythefnos rhwng y tiwtor personol a'r ymgeisydd. Mae'n debygol y bydd absenoldeb hwy yn effeithio ar yr hyfforddiant a bydd angen cymeradwyaeth y Deon Hyfforddiant Gweinidogion, a fydd yn ymgynghori â'r Esgobaeth fel sy'n briodol.

Lle bydd absenoldeb hirdymor yn estyn i fisoedd, dylid adolygu'r trefniadau a'u heffaith ar yr hyfforddiant yn rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd yn briodol oedi'r hyfforddiant am gyfnod. Dylai'r cymorth bugeiliol gan diwtor personol yr ymgeisydd barhau yn ystod y cyfnod hwn. Gellir darparu cymorth arall fel cwnsela, os yw'n briodol.

Yn dilyn y sgwrs gyda'u tiwtor personol, dylai'r ymgeisydd hysbysu goruchwyliwr eu lleoliad ynghylch eu habsenoldeb. Bydd y tiwtor personol yn hysbysu Cydlynydd y Rhaglen ynghylch yr absenoldeb, a fydd yn cadw cofnod o'r absenoldeb ac yn hysbysu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yr ymgeisydd (e.e. Arweinwyr Celloedd Ffurfiannol).

Pan fydd yr ymgeisydd yn ailddechrau'r hyfforddiant, bydd y tiwtor personol yn cynnal cyfweliad dychwelyd i hyfforddiant er mwyn gweld a oes angen rhoi mesurau ar waith i asesu a oes angen unrhyw gymorth ar yr ymgeisydd i gynorthwyo eu dychweliad, er enghraifft, dychwelyd yn raddol i'r hyfforddiant.

Bydd trefniadau absenoldeb ar gyfer amgylchiadau bugeiliol hirdymor yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ni fydd grantiau bellach yn daladwy ar ôl blwyddyn a thybir bod yr hyfforddiant wedi dod i ben. Os oes amgylchiadau eithriadol, byddai ymgynghori'n digwydd gydag Esgob yr ymgeisydd, y Cyfarwyddwr

Ordinandiaid Esgobaethol a Phrif Swyddog Gweithredol Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ac mae'n bosibl y bydd y cyfnod hwn yn cael ei estyn.

6. Absenoldeb o Gyrsiau Preswyl

Mae cyrsiau preswyl yn llunio rhan hanfodol o'r hyfforddiant ffurfiannol ac nid ydynt yn ddewisol. Os nad oes gan ymgeisydd ddewis ond methu cwrs preswyl ar sail iechyd neu dosturiol, dylid dilyn y prosesau priodol a amlinellir yn y polisi hwn. Bydd absenoldeb o gyrsiau preswyl yn cael ei nodi ar adroddiad yr ymgeisydd gan yr Esgob.

7. Absenoldeb a Grantiau

Ar gyfer absenoldeb o lai nag wythnos, ni fydd taliadau grant ymgeisydd yn cael eu heffeithio.

Ar gyfer absenoldebau ardystiedig hirdymor oherwydd salwch, bydd y grantiau'n cael eu talu am hyd at 52 wythnos, ar wahân i'r grant teithio na fyddai ei angen. Mewn amgylchiadau eithriadol, fel yr amlinellir yn yr adran absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, mae'n bosibl y gellir estyn y taliadau grant.

Ar gyfer absenoldebau hirdymor y cytunwyd arnynt o dan y broses a amlinellir yn yr adran absenoldeb hirdymor uchod, bydd y grantiau'n parhau i gael eu talu am hyd at 52 wythnos, ar wahân i'r grant teithio na fyddai ei angen. Mewn amgylchiadau eithriadol, fel yr amlinellir yn yr adran absenoldeb hirdymor oherwydd rhesymau bugeiliol, mae'n bosibl y gellir estyn y taliadau grant.

8. Absenoldeb ac astudiaethau academaidd

Mewn rhai amgylchiadau, gall absenoldeb am unrhyw hyd o amser effeithio ar allu'r ymgeisydd i gyflawni'r rhaglen academaidd sy'n rhan o'u hyfforddiant. Er enghraifft, os yw'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn aseiniad yn dod o fewn cyfnod o absenoldeb. Fel rhan o'u Sicrwydd Ansawdd, mae'n rhaid i bob darparwr Addysg Uwch fod â threfniadau ar waith sy'n ymdrin ag effeithiau absenoldeb ar astudiaethau dysgwyr. Nid yw'r polisi absenoldeb hwn ar gyfer y rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig yn disodli'r trefniadau absenoldeb ar gyfer y rhaglenni academaidd; mae'n cyd-fynd â hwy. Felly, yn ychwanegol at y camau a amlinellir uchod, bydd angen i'r ymgeiswyr gymryd camau pellach os yw eu habsenoldeb yn debygol o olygu bod angen iddynt estyn y

dyddiad cyflwyno oherwydd amgylchiadau lleddfol neu doriad yn yr astudiaethau. Ac anogir yr ymgeiswyr i siarad â'r Cofrestrydd cyn gynted â phosibl. Dylsent hefyd siarad a'r Cofrestrydd os bydd eu habsenoldeb yn debygol o effeithio ar eu hastudiaethau academaidd.

9. Polisïau eraill

Gellir defnyddio polisïau eraill Athrofa Padarn Sant, fel Polisi Gallu i Astudio'r Athrofa, lle bo hynny'n briodol. Os oes absenoldeb parhaus am resymau nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y polisi hwn, neu lle nad ymdrinnir yn briodol ag absenoldeb yn gyson gan yr ymgeisydd, yna mae'n bosibl y bydd Polisi Disgyblu Dysgwyr Athrofa Padarn Sant yn cael ei roi ar waith. Os yw dysgwr yn anhapus gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â'u habsenoldeb, gallant wneud defnydd o Bolisi Cwynion Anacademaidd Athrofa Padarn Sant.